Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penygroes,
# Safle Ysgol Bro Lleu,
# Ffordd y Brenin
# Penygroes
# Gwynedd
# LL54 6RE

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

**gan**


**Mr W Williams**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Penygroes yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Penygroes a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn caban sydd wedi ei leoli ar dir Ysgol Bro Lleu. Mae hefyd ardal chwarae gaeëdig y tu allan sy'n cael ei rannu gyda'r ysgol.

Bernir bod yr ardal a wasanaethir gan y lleoliad o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd nifer fechan iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr am bum bore'r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner i dair blwydd oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae wyth plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan bob plentyn. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan dair ymarferydd llawn amser ac un ymarferydd rhan amser. Mae pob un ohonynt wedi'u cymhwyso'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Wedi i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad, byddant yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Bro Lleu.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2010. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- cynnydd plant mewn medrau a dysgu yn dda:
- ymddygiad yn dda a phlant yn ymateb yn frwd i brofiadau dysgu newydd;
- addysgu yn dda ac yn darparu profiadau dysgu ysgogol a heriol;
- darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant, a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth yn dda a synnwyr cryf o bwrpas i waith y lleoliad;
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn hynod o drylwyr;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio, ac
- ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1. gynyddu'r adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A2. ddatblygu'r trefniadau hunan-arfarnu ymhellach; a

A3. mireinio ei weithdrefnau ar gyfer gwerthuso ymarferwyr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu hoedran, eu cyfnod datblygu a'u man cychwyn, mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da yn yr hyn y maent yn gallu eu wneud ac yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Wrth iddynt ymwneud â'r ystod eang o weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gweithio yn unol â'u gallu ac yn cyflawni'n dda. Mae'r rhan fwyaf ymdrechu'n galed ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau ar un dasg.

Mae pob plentyn yn gwneud cynnydd da yn ei medrau cyfathrebu Cymraeg. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu teimladau'n hyderus mewn iaith ddealladwy, ac yn trafod eu dysgu yn ystyrlon. Maent yn adalw ystod eang o ganeuon a rhigymau ac yn eu perfformio'n hynod o frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos ddiddordeb brwd mewn llyfrau ac yn gwrando'n astud ar storïau a ddarllenir iddynt gan ymarferwyr. Maent yn mwynhau trafod hynt a helynt y prif gymeriadau ac yn rhagweld yr hyn sy'n debygol o ddigwydd nesaf iddynt yn y stori. Mae'r darllenwyr mwy hyderus yn troi o'u gwirfodd at eu hoff lyfr ac yn adnabod ystod gynyddol o lythrennau a geiriau cyfarwydd. Mae bron pob plentyn yn adnabod ei enw mewn print.

Mae medrau cynnar ysgrifennu llawer o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu megis ar gyfer gwneud rhestr siopa, ac yn mwynhau arbrofi â chreu marciau trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel sialc, paent a phensiliau.

Trwy ymwneud ag ystod eang o weithgareddau, megis datrys problemau a chyfrif arian yn siop y dosbarth, caiff medrau rhif plant eu datblygu'n dda. Er bod pob plentyn yn mwynhau defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae prinder adnoddau addas yn cyfyngu'r cyfleoedd i'r plant ymestyn eu medrau.

**Lles: Da**

Mae pob un plentyn yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu ac yn ymateb yn frwdfrydig i brofiadau dysgu newydd. Mae gan y plant ddealltwriaeth gadarn o sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Mae gan yr holl blant berthynas glos gydag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol.

Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r ymddygiad da a'r gofal a ddangosir gan blant tuag at ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn ystyriol o deimladau plant eraill, ac wrth ymwneud â gweithgareddau penodol neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn arddangos lefelau cynyddol o annibyniaeth. Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu o ansawdd uchel ac yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws y meysydd dysgu. Mae dysgu wedi ei selio ar gynlluniau cwricwlaidd manwl sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r awyr agored yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu eu medrau’n effeithiol. Caiff plant gyfleoedd mynych i arwain eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn ymweld â'r gymuned leol yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr sy’n dod i’r lleoliad i siarad am eu gwaith.

Mae’r profiadau dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i blant ffurfio perthynas glos yn y lleoliad ac i ddechrau caffael y medrau meddwl a datrys problemau sydd eu hangen i gael mynediad i’r cwricwlwm ehangach.

Caiff digonedd o gyfleoedd o ansawdd da eu darparu i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd. Mae’r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd chwarae rôl, gwrando ar storïau a gwneud marciau i wahanol bwrpasau. Mae medrau rhifedd wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu plant. Oherwydd diffyg ystod o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae’r cyfleoedd i blant i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu yn gyfyngu.

Mae’r cyfleoedd a ddarperir i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a chodi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru, o ansawdd uchel. Trwy chwarae rôl a blasu bwydydd o wahanol wledydd, daw plant yn fwy ymwybodol o’u rôl fel dinasyddion byd-eang. Mae cyfleoedd da iddynt ddysgu am gynaladwyedd ac i chwarae rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu’r lleoliad.

**Addysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol a’r plant mwy abl a thalentog. Trwy gyd-gynllunio bwriadus, llwydda ymarferwyr i ddarparu profiadau dysgu ysgogol a heriol dan do a'r tu allan. Trwy ddefnyddio ystod eang o strategaethau dysgu, mae ymarferwyr yn sbarduno diddordeb plant ac yn sicrhau eu hymglymiad i'w tasgau. Gan fwyaf, mae’r tasgau yn cynnwys her addas ac yn bodloni anghenion unigol plant yn hyblyg. Mae pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol, a chedwir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rheini a gaiff eu cyfeirio gan ymarferwyr. Mae'r oedolion yn gwybod pryd mae'n briodol i ymyrryd yn nysgu'r plant a gwnânt hynny’n effeithiol trwy holi medrus ac awgrymu ffyrdd o symud dysgu yn ei flaen. Wrth ymuno yn y chwarae, maent yn sicrhau bod plant yn manteisio i’r eithaf ar yr hyn sydd gan bob gweithgaredd i’w gynnig. Mae perthynas waith clos iawn rhwng ymarferwyr a phlant, maent yn adnabod pob unigolyn yn dda ac yn ymwybodol o’u hanghenion personol ac addysgol. Pan gyfyd

achosion prin o ymddygiad annerbyniol neu anghydfod rhwng unigolion, cânt eu datrys yn gadarn a sensitif gan ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd plant. Gan fwyaf, caiff deilliannau asesu eu defnyddio'n bwrpasol i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau plant. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a'r hyn y gallant hwy ei wneud i'w helpu i wella.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r profiad dyddiol gaiff plant i weithio yn yr ardal y tu allan yn cael effaith lesol ar eu datblygiad ysbrydol a chorfforol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o harddwch y byd o'u cwmpas. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Maent yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol megis gan seicolegydd addysg neu therapydd lleferydd.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r lleoliad yn nodi anghenion dysgu plant yn fanwl pan fyddant yn ymuno ac yn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn ac yn galluogi'r plant hyn i wneud cynnydd arwyddocaol yn eu dysgu ac i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol allweddol.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar y cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod pob plentyn ac aelod staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwyddant i greu amgylchedd ysgogol lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'i brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Yn gyffredinol, mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da yn bron pob un o'r meysydd dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan ac yn y gymuned eu defnyddio'n

bwrpasol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad a thrwy waith tîm, mae'n archwilio sut i'w chyflawni. Mae synnwyr cryf o bwrpas i waith y lleoliad a llwyddir i greu ethos sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae'r arweinydd yn rheoli ymarferwyr a phlant yn effeithiol ac yn cyfleu disgwyliadau uchel. Mae nodau a pholisïau clir wedi'u sefydlu sy'n canolbwyntio ar anghenion plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos, maent yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen, ynghyd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r berthynas gadarnhaol dros ben sydd gyda phlant a'r rhieni yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn hynod o drylwyr ac yn darparu cefnogaeth gref iawn i staff y lleoliad. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u rolau ac maent yn llais dylanwadol yn natblygiad y lleoliad. Caiff unrhyw gwynion eu datrys mewn ffordd agored ac effeithiol.

Er bod gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff, nid ydynt yn deillio ar dargedau clir sy'n helpu ymarferwyr i wella eu harfer.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda a chydag arweiniad yr arweinydd, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut maent yn ddiweddar, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella darpariaeth a safonau cyflawniad a lles plant.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r lleoliad o ansawdd da a defnyddir yr wybodaeth yn effeithiol ar gyfer rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith. Er hynny, mae trefniadau hunan-arfarnu yn eu dyddiau cynnar o ddatblygiad ac mae'r lleoliad wedi nodi hyn yn ei hunan-arfarniad.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Trwy anogaeth yr arweinydd, mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i

roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod dda o weithgareddau partneriaeth sy’n cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.  Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir.  Mae’r arferiad o gyfuno plant y lleoliad gyda dosbarth meithrin yr ysgol am wers ganu unwaith yr wythnos yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth o’r naill i’r llall ar ddiwedd blwyddyn.  Mae hyn yn arfer dda.

Er bod y lleoliad yn gwneud defnydd llawn o adnoddau’r pentref a’r amgylchedd lleol, nid yw’n manteisio’n llawn ar gyfraniad posib pobl o’r gymuned leol i rannu eu profiadau gyda’r plant.

Mae'r cydweithio cynhyrchiol sydd rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n arwyddocaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli staff ac adnoddau. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac mae'r trefniadau cynhwysfawr sydd ar gyfer bodloni anghenion datblygu ymarferwyr, yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth dda o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.  Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

### Trafod â phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |